Cofnodion cyfarfod arferol **CYNGOR TREF RHUTHUN** a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 25 Ebrill 2016 am 7:00p.m.

PRESENNOL: Cynghorydd Anne Roberts (Maer)
Y Cynghorwyr Stephen Beach, James Bryan, Bob Costain, June Derry, Ken Hawkins, Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones, Simeon Jones, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis, Geraint Woolford, Heather Williams ac Emrys Wynne.
Hefyd y Cynghorydd Sir Bobby Feeley.

219. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd Elisabeth Culshaw.

220. DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaeth y Cynghorwyr a ganlyn ddatgan budd yn yr eitemau a nodir:
Cynghorydd Ken Hawkins: Eitem agenda rhif 20 (ii) – Cyfraniad i Gymdeithas Efeillio Rhuthun a'r Cylch
Cynghorydd Rosie Hughes-Moseley: Eitem agenda rhif 9 – Cyfraniad i Ŵyl Rhuthun
Cynghorydd Menna Jones: Eitem agenda rhif 20 (i) and (ii) – Cyfraniad i Gymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch tuag at benwythnos Drysau Agores a Chymdeithas Efeillio Rhuthun a'r Cylch yn ôl eu trefn
Cynghorydd Anne Roberts: Eitem agenda rhif 20 (i) – Cyfraniad i Gymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch tuag at benwythnos Drysau Agored
Cynghorydd Heather Williams: Eitem agenda rhif 20 (i) – Cyfraniad i Gymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch tuag at benwythnos Drysau Agored
Cynghorydd Emrys Wynne: Eitem agenda rhif 20 (ii) – Cyfraniad i Gymdeithas Efeillio Rhuthun a'r Cylch

221. CYFLWYNIAD GAN AELODAU PWYLLGOR GŴYL RHUTHUN

Croesawodd y Maer Ifan Wyn a Robert Price o Bwyllgor Gŵyl Rhuthun, a chafwyd cyflwyniad cryno yn amlinellu'r sefyllfa bresennol a phrosiectau arfaethedig i'r dyfodol. Esboniwyd bod nifer o ffynonellau grant wedi darfod a'u bod yn gweithio ar gynyddu'r nawdd gan fusnesau. Bydd yr Ŵyl eleni yn cynnwys 20 o ddigwyddiadau dros gyfnod o wyth niwrnod, gyda'r achlysur yn gwneud cyfraniad isafswm o £100,000 i'r economi leol. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i ddefnyddio'r Ystafelloedd Cynnull yn Neuadd y Dre far gyfer noson gomedi ym mis Gorffennaf a rhagor o ddigwyddiadau megis gig lansio a gŵyl gwrw yn y dyfodol i sicrhau defnydd cymunedol. Amcanion eraill i'r dyfodol yw prynu offer yn hytrach na'i logi a gwella'r berthynas â Heddlu Gogledd Cymru.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r cyflwyniad.*

222. ADRODDIAD Y MAER

Adroddodd y Maer ei bod wedi bod yn y digwyddiadau isod ers y cyfarfod diwethaf:
23/03 Cae Ddôl – Ysgol Borthyn – prosiect Cofio Rhuthun
23/03 Clwb Rygbi Rhuthun – perfformiad Jac a'r Goeden Ffa gan Theatr Ieuenctid Rhuthun
31/03 Eglwys Sant Pedr – angladd Betty Downs
01/04 Clwb Rotari Rhuthun – Noson Siarter - Clwyd Gate
05/04 Cyfarfod safle ar Stryd Clwyd ynghylch y canllaw
06/04 Cyfarfod Joe a Jake a'u croesawu i Rhuthun cyn y gystadleuaeth Eurovision
06/04 Cyfarfod Ymlaen Rhuthun
07/04 Cyfarfod pwyllgor Cymdeithas Efeillio Rhuthun a'r Cylch
08/04 Gwasanaeth Coffa Marjorie Williams – trwy wahoddiad gan y teulu
09/04 Clwb Pel-droed Rhuthun – prynhawn noddwyr
10/04 Te prynhawn yn Llys Erw er budd Macmillan
12/04 Cyfarfod Tîm y Dref
14/04 Ysgol Borthyn – prosiect Cofio Rhuthun gyda Polly Snape
17/04 Dewis 'teulu brenhinol' Carnifal Rhuthun yng Nghastell Rhuthun – Ymlaen Rhuthun
18/04 Agor arddangosfa ffotograffau Colin Edwards yn Eglwys Sant Pedr i ddathlu pen-blwydd y Frenhines yn 90 oed
18/04 Cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol

18/04 Cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da a Pherson Ifanc y Flwyddyn
19/04 Noson caws a gwin yn y Myddelton er budd Tîm Tref Rhuthun
21/04 Prosiect Cofio Rhuthun – Ysgol Borthyn
23/04 Croesawu David Jones AS a Mrs Sara Jones i arddangosfa Colin Edwards yn Eglwys Sant Pedr
23/04 Cyfarfod â Maer Bollington, ger Macclesfield, Mrs. Angela Williams, a'i chonsort, Mr. David Lloyd Williams, o Rhuthun yn flaenorol (trwy wahoddiad gan un o drigolion Rhuthun).

223. ADRODDIADAU'R AELODAU

Cynghorydd Stephen Beach	Perfformiad Jac a'r Goeden Ffa gan Theatr Ieuenctid Rhuthun yng Nghlwb Rygbi Rhuthun, cyfarfod Cyllid ac Adeiladau Llywodraethwyr Ysgol Stryd y Rhos, angladd Betty Downs, ffotograffau Atgofion Rhuthun yng Nghanolfan Awelon, cyfarfod Grŵp Llywio Heddlu Gogledd Cymru yn Wrecsam, dathliadau pen-blwydd y Cynghorydd Jim Bryan yn 70 oed, agoriad arddangosfa ffotograffau Colin Edwards yn Eglwys Sant Pedr i ddathlu pen-blwydd y Frenhines yn 90 oed, noson caws a gwin yn y Myddelton er budd Tîm Tref Rhuthun, cyfarfod Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn y Trallwng a diwrnod agored rhannu gwybodaeth am laith a Lleferydd yn HWB Dinbych.
Cynghorydd James Bryan	Pwyllgor rheoli Canolfan Awelon, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da, noson caws a gwin yn y Myddelton er budd Tîm Tref Rhuthun a chyfarfodydd pwyllgor ac is-bwyllgorau Gŵyl Rhuthun.
Cynghorydd June Derry	Noson caws a gwin yn y Myddelton er budd Tîm Tref Rhuthun.
Cynghorydd Ken Hawkins	Newid yr awr ar gloc Eglwys Sant Pedr gyda'r Cynghorydd Simeon Jones, dathliadau pen-blwydd y Cynghorydd Jim Bryan yn 70 oed, ailosod y cloc i daro'r awr yn gywir a noson caws a gwin yn y Myddelton er budd Tîm Tref Rhuthun.
Cynghorydd Menna Jones	Angladd Betty Downs, cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da a noson caws a gwin yn y Myddelton er budd Tîm Tref Rhuthun.
Cynghorydd Simeon Jones	Newid yr awr ar gloc Eglwys Sant Pedr gyda'r Cynghorydd Hawkins.
Cynghorydd Ian Lewney	Ffotograffau Atgofion Rhuthun yng Nghanolfan Awelon, noson caws a gwin yn y Myddelton er budd Tîm Tref Rhuthun a dathliadau pen-blwydd y Cynghorydd Jim Bryan yn 70 oed.
Cynghorydd Robert Owen-Ellis	Cyflwyniadau gan fyfyrwyr Bagloriaeth Cymru Blwyddyn 12 Ysgol Brynhyfryd ar Dwristiaeth a Hamdden, Banc Bwyd x 4 a chyfarfod â Phennaeth Ysgol Pen Barras ynghylch y cynlluniau ar gyfer yr ysgol newydd.
Cynghorydd Geraint Woolford	Cyngerdd Elusennol Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych ym Mhafiliwn Llangollen, cyfarfod safle ynghylch y canllaw ar Stryd Clwyd, cyfarfod a chyfarch Joe a Jake gyda'r Maer, te prynhawn i godi arian i Macmillan yn Llys Erw, agoriad arddangosfa ffotograffau Colin Edwards yn Eglwys Sant Pedr i ddathlu pen-blwydd y Frenhines yn 90 oed, cyfarfod yr Is-bwyllgor Craffu Ariannol, cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da a'r noson caws a gwin yn y Myddelton er budd Tîm Tref Rhuthun.
Cynghorydd Emrys Wynne	Cyfarfod safle ynghylch y canllaw ar Stryd Clwyd, noson caws a gwin yn y Myddelton er budd Tîm Tref Rhuthun a chyfarfod Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn y Trallwng.
Cynghorydd Heather Williams	Noson caws a gwin yn y Myddelton er budd Tîm Tref Rhuthun a chyfarfod Twristiaeth Bysiau Moethus.

224. COFNODION Y CYFARFOD ARFEROL DIWETHAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2016 fel cofnod cywir, yn amodol ar ddiwygio rhifo'r cofnodion.*

225. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

226. PWYLLGOR CYNLLUNIO
Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2016.
***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

227. PWYLLGOR AMWYNDERAU
Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Ebrill 2016.
***PENDERFYNWYD**: derbyn cofnodion y cyfarfod.*

228. CAIS AM GYFRANIAD
Bu'r aelodau'n ystyried cais am gyfraniad ariannol gan Bwyllgor Gŵyl Rhuthun.
***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo cyfraniad ariannol o £1,000 i Ŵyl Rhuthun.*

229. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL
Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais gan Gymdeithas Cymuned Llanfwrog Community Association am £5,000 tuag at gostau amcangyfrif o £43,000 am waith hanfodol i osod lifft a grisiau yn y ganolfan.
***PENDERFYNWYD**: gofyn i gynrychiolydd y Gymdeithas ddod i gyfarfod arferol nesaf y Cyngor i ddarparu rhagor o fanylion ac eglurhad i'r aelodau.*

230. GWOBRAU DINESYDD DA A PHERSON IFANC Y FLWYDDYN 2016
Dywedodd y Maer y derbyniwyd tri enwebiad ar gyfer Dinesydd Da'r Flwyddyn 2016 a naw ar gyfer Person Ifanc y Flwyddyn, ond bu'n rhaid diystyru tri am eu bod yn byw y tu allan i ffiniau tref Rhuthun. Bydd Gwobr Dinesydd Da'r Flwyddyn yn cael ei gyflwyno i Mr Huw Thelwall Davies am ei waith gwirfoddol gyda Gŵyl Rhuthun, Capel Tabernacl, Elusen Rhuthun a Goodman ac Urdd Gobaith Cymru yn yr ardal. Cyflwynir gwobr Person Ifanc y flwyddyn i Liam Rickard, disgybl Blwyddyn 8 yn Ysgol Brynhyfryd sy'n gwirfoddoli fel hyfforddwr gyda chlwb triathlon Ruthin Tri Stars, yn cynorthwyo unigolyn hŷn gyda'i garddio yn rheolaidd a hefyd yn cynrychioli Rhuthun yn y tîm pel-droed iau a'r clwb nofio.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r manylion.*

231. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL
Bu'r Aelodau'n ystyried cais gan Bwyllgor Gŵyl Rhuthun am gynrychiolydd Cyngor Tref Rhuthun are u Pwyllgor yn dilyn ymddiswyddiad y Cynghorydd Simeon Jones.
***PENDERFYNWYD**: enwebu'r Cynghorydd Stephen Beach fel cynrychiolydd newydd Cyngor Tref Rhuthun ar Bwyllgor Gŵyl Rhuthun.*

232. CYFARFOD TWRISTIAETH BYSIAU MOETHUS
Darparodd y Cynghorydd Heather Williams adroddiad ar y cyfarfod Twristiaeth Bysiau Moethus diweddaraf, lle'r oedd cynrychiolwyr o Gynghorau Tref Rhuthun, Corwen a Dinbych yn bresennol, ynghyd â dau Gynghorydd Sir a thri swyddog Cyngor Sir Ddinbych. Bydd taith ddysgu i weld arferion gorau yn cael ei threfnu ym mis Medi/Hydref, gyda chynlluniau i lunio pecynnau taith newydd a denu twristiaid o'r llongau mordaith sy'n galw yn nociau Lerpwl.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r adroddiad.*

233. GOHEBIAETH
Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a nodi gohebiaeth oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych – Cylchlythyr Moderneiddio Addysg Mawrth 2016 a gwahoddiad i sesiwn galw heibio i weld cynigion yr adeiladau ysgol newydd ar gyfer Ysgol Stryd y Rhos ac Ysgol Pen Barras ym Marchnad Da Byw Rhuthun, llythyr am gynllun 'Bags of Help' Tesco, gwahoddiad i un aelod fynd i Ddigwyddiad Ymgysylltu Carchar Ei Mawrhydi y Berwyn ym Marchnad Da Byw Rhuthun a llythyr oddi wrth yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch ymgynghori ar y dull archwilio newydd.
***PENDERFYNWYD**: nodi'r ohebiaeth a bod y Cynghorydd Geraint Woolford yn cynrychioli Cyngor Tref Rhuthun yn Nigwyddiad Ymgysylltu Carchar Ei Mawrhydi y Berwyn.*

234. CYFRIFON AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2016

Cyflwynodd y Clerc y cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2016, a diolchodd i'r Clerc blaenorol am ei gymorth yn eu paratoi.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r cyfrifon a'u llofnodi gan y Maer a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.*

235. UNDEB CREDYD GOGLEDD CYMRU

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried llythyr oddi wrth Undeb Credyd Gogledd Cymru yn gofyn am drosglwyddo arian fel bod cyfrif Cyngor Tref Rhuthun o dan y terfyn £75,000.

***PENDERFYNWYD**: trosglwyddo arian i'r cyfrif Busnes Wrth Gefn fel bo'r swm yn y cyfrif Undeb Credyd Gogledd Cymru yn cael ei leihau i £75,000.*

236. DATGANIAD ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau dderbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2016.

***PENDERFYNWYD**: derbyn a chymeradwyo'r Datganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 31 Mawrth 2016.*

237. CAIS AM GYFRANIAD

i. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais gan Gymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch am £1,500 tuag at benwythnos Drysau Agored yn Rhuthun ar 10-11 Medi 2016.

***PENDERFYNWYD**: gwneud cyfraniad o £1,500 tuag at benwythnos Drysau Agored 2016.*

ii. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais am £500 gan Gymdeithas Efeillio Rhuthun a'r Cylch.

***PENDERFYNWYD**: gwneud cyfraniad o £500 i Gymdeithas Efeillio Rhuthun a'r Cylch.*

238. ADNEWYDDU COFRESTRIAD DIOGELU DATA

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried adnewyddu cofrestriad blynyddol y Cyngor fel rheolydd data dan y Ddeddf Diogelu Data ar gost o £35.00.

***PENDERFYNWYD**: adnewyddu cofrestriad Diogelu Data Cyngor Tref Rhuthun.*

239. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: awdurdodi'r taliadau a ganlyn.*

874	Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru	Cinio x 2 yn dilyn cyfarfod y Gymdeithas		£30.00
875	Cwmni Budd Cymunedol Llanfwrog	Llogi'r neuadd a darparu caws a gwin yn yr achlysur lansio'r wefan		£345.20
876	Sandra Williams	Stampiau		£54.00
877	Sandra Williams	Adnewyddu tanysgrifiad Norton Antivirus	*	£39.99
S.O.	Canda Copying Ltd	Rhentu a chopïau isafswm	*	£129.14
878	Canda Copying Ltd	Copïau du a gwyn ychwanegol	*	£10.60
879	Canda Copying Ltd	Copïau lliw ychwanegol	*	£79.58
880	Blachere Illumination	Llogi goleuadau Nadolig – trydedd flwyddyn	*	£5,768.75
881	Marian Rees	Cyfieithu ar y pryd	*	£108.00
882	Cyllid y Wlad	Treth incwm ac Yswiriant Gwladol		£252.63
883	Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth	Adnewyddu cofrestriad Diogelu Data		£35.00
884	Cymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch	Cyfraniad ariannol tuag at Ddrysau Agored Rhuthun 2016		£1,500.00
885	Cymdeithas Efeillio Rhuthun	Cyfraniad ariannol i'r Gymdeithas		£500.00
886	Scottish Power	Cyflenwad trydan i'r goleuadau Nadolig		£88.70

(Mae'r eitemau uchod wedi eu nodi â * yn cynnwys T.A.W. adferadwy gwerth £1,022.69)

240. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau dyddiadau cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fel nos Lun, 16 Mai 2016 – Cyfarfod Blynyddol a nos Lun, 23 Mai 2016 – cyfarfod arferol.*